# Swydd Ddisgrifiad

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

Ein Dyfodol. Rhagoriaeth. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynhwysiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cydweithio. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Trawsnewidiad. Cliciwch yma.
Ein Dyfodol. Cynaliadwyedd. Cliciwch yma.

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Adran** | **Swyddfa'r Is-Ganghellor** |
| **Adran** | Prosiectau Strategol |
| **Teitl y Swydd** | Rheolwr Effaith Partneriaethau Chwaraeon |
| **Yn atebol i** | Pennaeth Staff |
| **Gradd** | SAP1 |

## Prif Atebolrwydd

Bydd y Rheolwr Effaith Partneriaethau Chwaraeon yn chwarae rhan ganolog o ran datblygu Partneriaeth Chwaraeon Wrecsam, drwy weithio ar draws partneriaid yn Wrecsam mewn modd cydweithredol. Bydd deiliad y swydd yn arwain ar ddylunio a chydlynu dulliau ymchwil, fframweithiau casglu data, ac offer gwerthuso, yn ogystal â'u rhoi ar waith, i fesur effaith gymdeithasol, economaidd, iechyd a chymunedol chwaraeon ledled y ddinas.

Bydd y swydd yn tynnu partneriaid ynghyd, sy'n cynnwys y Brifysgol, Sefydliad Clwb Pêl-droed Wrecsam, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i gynhyrchu tystiolaeth, cipolygon, ac adroddiadau o safon uchel. Bydd y swydd yn ganolog i nod y Bartneriaeth Chwaraeon o ddefnyddio data a thystiolaeth i adrodd straeon a chodi proffil effaith newid bywyd chwaraeon yn ein cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys astudiaethau achos, yn ogystal â'r gwaith o ddatblygu adroddiad effaith blynyddol sy'n debyg i werthusiadau chwaraeon-a-chymuned cynhwysfawr sy'n cael eu cynnal mewn lleoliadau prifysgolion dinesig a chwaraeon cymunedol eraill yn y DU.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol agwedd gadarnhaol, gydweithredol ac sy'n canolbwyntio ar gymuned - yn chwilfrydig, empathig, rhagweithiol, ac yn cael ei ysgogi gan gysylltiadau, yn ogystal â meddylfryd myfyriol, seiliedig ar ddata ac sy'n cael ei arwain gan ddatrysiadau.

Mae'r swydd hon yn hanfodol i ddatblygu uchelgeisiau Wrecsam fel prifysgol ddinesig fodern, a chyflawni nodau cyffredin ar draws partneriaid i sicrhau twf cynhwysol a gwella iechyd a llesiant ar draws y rhanbarth.

## Tasgau Allweddol

**A. Ymchwil, Cipolygon, a Gwerthuso**

- Dylunio ac arwain dulliau ymchwil cyfunol (ansoddol, meintiol, hydredol, a chyfranogol).
- Datblygu fframweithiau casglu data cadarn y mae modd eu defnyddio'n gyson ar draws partneriaid yn y ddinas.
- Mapio setiau data presennol gan bartneriaid a nodi bylchau, cyfleoedd, a chryfderau.
- Arwain prosesau cymeradwyo moeseg a sicrhau bod data'n cael ei reoli mewn modd sy'n cydymffurfio â GDPR.
- Llunio adroddiadau gwerthuso, crynodebau ystadegol, dangosfyrddau a sesiynau briffio ar gipolygon sydd o ansawdd da.
- Cyd-lunio Adroddiad Effaith Chwaraeon a Chymuned Wrecsam, gan grynhoi tystiolaeth ledled y ddinas ar gyfranogiad, canlyniadau iechyd, cynhwysiant, gwerth economaidd, cydlyniant cymunedol, yn ogystal â'r Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru.

**B. Cydweithrediad a Chydgysylltiad Partneriaeth**

- Gweithredu fel prif gyswllt ar draws Prifysgol Wrecsam, Sefydliad Clwb Pêl-droed Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol a phartneriaid eraill, fel sy'n briodol.
- Cynnull gweithgorau, grwpiau llywio ymchwil, a gweithdai thematig i lywio blaenoriaethau cyffredin.
- Cefnogi Partneriaeth Chwaraeon Wrecsam drwy ddarparu argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer strategaeth a buddsoddi.
- Datblygu cysylltiadau gweithio cadarn â chlybiau lleol, ysgolion, partneriaid iechyd, a sefydliadau cymunedol.

**C. Effaith Gymunedol**

- Cyfrannu at weledigaeth Prifysgol Wrecsam i fod yn brifysgol fodern ddinesig flaenllaw drwy wneud prosiectau seiliedig ar chwaraeon yn gydnaws â blaenoriaethau rhanbarthol megis anghydraddoldebau iechyd, symudedd cymdeithasol, datblygu sgiliau, a llesiant cymunedol.
- Cefnogi'r gwaith o ddylunio a gwerthuso rhaglenni cymunedol a gyflwynir drwy Sefydliad Clwb Pêl-droed Wrecsam a phartneriaid chwaraeon lleol.
- Sicrhau bod lleisiau cymunedau na chânt eu gwasanaethu'n ddigonol yn cael eu cynrychioli mewn ymchwil a chipolygon.

**D. Rheoli a Chyflwyno Prosiectau**

- Cynnal a chadw cynlluniau prosiect, cofrestrau risg, fframweithiau monitro, ac amserlenni ar draws sawl partner.

- Sicrhau a rheoli cyllidebau prosiectau bach yn unol â rheoliadau ariannol y Brifysgol.
- Paratoi sesiynau brifo ar gyfer uwch arweinwyr, cyfarfodydd bwrdd, a fforymau partneriaeth.
- Cynrychioli'r Bartneriaeth Chwaraeon mewn digwyddiadau chwaraeon, iechyd, a chymunedol yn y rhanbarth.

## Nodweddion Arbennig

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n bennaf yn ystod oriau swyddfa arferol o ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd angen gweithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau o bryd i'w gilydd, ac efallai y bydd rhywfaint o deithio'n ofynnol.

## Dyletswyddau Cyffredinol

Byddwch yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli priodol ar waith er mwyn diwallu'ch dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a nodir ym mholisi iechyd a diogelwch y Brifysgol. Yn benodol, byddwch yn sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal mewn cysylltiad â pheryglon sylweddol ac yr ymgymerir ag arolygon diogelwch o leiaf unwaith y flwyddyn, ym mhob gweithle dan eich rheolaeth chi.

Cyfrifoldeb y gweithwyr yw rhoi Polisi Cyfle Cyfartal y Brifysgol ar waith o fewn eu maes cyfrifoldeb eu hunain ac yn eu hymddygiad cyffredinol.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb dros hyrwyddo gofal cwsmer o safon yn eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i Gynaliadwyedd.

Rhaid i bob aelod o staff hyrwyddo ymddygiad iach ac iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol

Disgwylir i ddeiliaid swyddi gydweithredu â'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, gan gymryd rhan wrth osod amcanion er mwyn cynorthwyo gyda monitro perfformiad a datblygiad yr unigolyn.

Byddwch yn asesu anghenion hyfforddiant a datblygiad pob aelod o staff dan eich rheolaeth i sicrhau ei fod yn cael ei digon o gefnogaeth o ran ei gyfrifoldebau yn y gwaith.

Dyletswyddau perthnasol eraill sy'n gymesur â gradd y swydd, a all gael eu neilltuo gan y Rheolwr, mewn cytundeb â deiliad y swydd. Ni ddylid gwrthod cytundeb o'r fath yn afresymol.

Mae'r cyfrifoldebau allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y swydd ddisgrifiad hon yn rhai nodweddiadol; nid ydynt yn gynhwysfawr. Gellir addasu dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn trafodaeth â deiliad y swydd.

Disgwylir i'r holl ddeiliaid swyddi yn y Gyfarwyddiaeth allu cynnig cymorth ar draws pob maes, y tu hwnt i'w tîm uniongyrchol, ar gais y Cyfarwyddwr ac yn gymesur â'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u profiad.

## Adolygu

Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd adeg ei chyhoeddi. Mae'n arfer gan y Brifysgol o bryd i'w gilydd i adolygu a diweddaru disgrifiadau swydd er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu natur gyfredol y swydd a gofynion y Brifysgol yn gywir, ac i ymgorffori newidiadau rhesymol pan fo angen, mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd.

# Manyleb Person

Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

**Teitl y Swydd:** **Rheolwr Effaith Chwaraeon a Chymuned**

Er mwyn cael eich rhoi ar y rhestr fer, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn diwallu pob un o’r meini prawf hanfodol a hynny o’r meini prawf dymunol ag sy’n bosibl. Pan fydd gennym nifer fawr o geisiadau sy'n diwallu’r holl feini prawf hanfodol, byddwn wedyn yn llunio’r rhestr fer gan ddefnyddio'r meini prawf dymunol.

## Meini Prawf Dethol

| | Priodoleddau | Eitem | Meini Prawf Perthnasol | Dull adnabod Dull | Pwysigrwydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sgiliau a Galluoedd | 1.1 | Sgiliau dadansoddi ansoddol a meintiol cadarn. | Ff, C | H |
| | | 1.2 | Y gallu i feithrin cysylltiadau a gweithio’n gydweithredol ar draws sectorau a sefydliadau. | Ff, C | H |
| | | 1.3 | Sgiliau cyfathrebu rhagorol sy’n cynnwys llunio adroddiadau i gynulleidfaoedd amrywiol. | Ff, C | H |
| | | 1.4 | Sgiliau rheoli prosiect cadarn. | Ff, C | D |
| | | 1.5 | Ymrwymiad cryf i arfer cynhwysol | Ff, C | H |
| | | 1.6 | Y gallu i feddwl yn strategol | Ff, C | D |
| | | 1.7 | Ymrwymiad clir i uniondeb moesegol a phroffesiynol | Ff, C | H |
| 2 | Gwybodaeth Gyffredinol ac Arbenigol | 2.1 | Dealltwriaeth o rôl chwaraeon mewn datblygiad cymunedol, iechyd, a chynhwysiant cymdeithasol. | Ff, C | H |
| | | 2.2 | Profiad o weithio o fewn addysg uwch, awdurdodau lleol, neu sefydliadau chwaraeon. | Ff, C | D |
| | | 2.3 | Gwybodaeth am sefyllfa gymdeithasol, economaidd, ac iechyd gogledd Cymru. | Ff, C | D |
| | | 2.4 | Profiad o ddefnyddio adnoddau ystadegol neu ddelweddu (SPSS, R, Power BI, Tableau). | Ff, C | D |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Addysg a Hyfforddiant | 3.1<br><br>3.2<br><br>3.3 | Gradd mewn datblygu chwaraeon, cymdeithaseg, iechyd cyhoeddus, datblygu cymunedol, dadansoddeg data, neu faes perthnasol<br>.<br>Gradd meistr neu brofiad ymchwil cyfwerth.<br><br>Sgiliau'r Gymraeg (neu ymrwymiad i'w datblygu). | Ff, T<br><br>Ff, T<br><br>Ff, C | H<br><br>D<br><br>D |
| 4 | Profiad Perthnasol | 4.1<br><br>4.2 | Profiad o ddylunio a chyflwyno prosiectau ymchwil a gwerthuso.<br><br>Profiad o adrodd am ganlyniadau prosiect | Ff, C<br><br>Ff, C | H<br><br>D |
| 5 | Gofynion Arbennig | | | | |
| **Dyddiad Adolygu** | | | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Allwedd** | **Dull Adnabod** | **Ff** | Ffurflen Gais |
| | | **C** | Cyfweliad |
| | | **P** | Prawf |
| | | **T** | Copi o Dystysgrifau |
| | | **Rh** | Cyflwyniad |
| | | **G** | Asesiad Grŵp |
| | **Pwysigrwydd** | **H** | Hanfodol |
| | | **D** | Dymunol |

Ein Dyfodol.
Rhagoriaeth.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Cynhwysiad.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Cydweithio.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Trawsnewidiad.
Cliciwch yma.

Ein Dyfodol.
Cynaliadwyedd.
Cliciwch yma.